Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Andrew Slade

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Llywodraeth Cymru

15 Mehefin 2020

Annwyl Andrew

**Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau - effaith economaidd Covid-19**

Diolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 8 Mehefin. Teimlwn i, a'r Aelodau, ei bod yn sesiwn dystiolaeth ddefnyddiol a chraff iawn. Rydym yn croesawu'r dull di-flewyn-ar-dafod y buoch yn siarad â ni, gan sicrhau bod realiti llwm yr heriau sydd o'n blaenau o ran adferiad economaidd yn cael ei egluro. Nodwn fod hyn yn arbennig o gymhleth o ystyried bod Brexit yn digwydd yr un pryd a'r heriau ychwanegol y mae hyn yn eu cyflwyno.

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod pecynnau a rhaglenni cymorth economaidd wedi'u paratoi o fewn dyddiau i gefnogi busnesau yng Nghymru, ac rydym am ddiolch i chi a'ch timau am eich ymrwymiad i roi'r rhaglenni hanfodol hynny ar waith mewn cyn lleied o amser.

Roedd un trywydd o ran cwestiynau, yn ymwneud ag effaith ehangach Covid-19 ar Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, nad oeddem wedi llwyddo i'w gyrraedd oherwydd cyfyngiadau amser, ac y dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch yn ei gylch. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod.

- Gan edrych yn ehangach ar draws Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR), pa weithgareddau sy'n cael blaenoriaeth, pa waith sydd wedi'i ail-flaenoriaethu i ryddhau capasiti, a sut mae'r Grŵp wedi llywodraethu ei ffordd drwy'r sefyllfa hyd yn hyn?
- Beth yw'r risgiau a'r heriau allweddol y mae'r Grŵp yn mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys pwyntiau pwysau tebygol ar gyllidebau yn y dyfodol?

- Sut mae swyddogion wedi cynnal goruchwyliaeth ac wedi cyfathrebu â'r gwahanol gyrff a noddir sy'n dod o fewn portffolio'r Grŵp?
- A oes unrhyw wersi allweddol yr ydych eisoes wedi'u nodi ynghylch gwneud busnes yn wahanol yr ydych am eu defnyddio ar gyfer y dyfodol?

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, roedd llawer o feysydd y gwnaethoch chi a Duncan Hamer gytuno i roi ateb i'r Pwyllgor yn eu cylch, ac rwyf wedi crynhoi'r meysydd hyn isod:

- Pa gamau y mae Uned Twyll Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y risg o dwyll yn cael ei leihau i'r eithaf;
- Darparwch y ffigurau diweddaraf o ran nifer y ceisiadau a ddaeth i law, a'r cyllid a gymeradwywyd ar gyfer yr amrywiol gynlluniau economaidd;
- Cadarnhewch y gwahaniaeth yn y data a gynhwysir yn y llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru a'r Datganiad Ystadegol ar 1 Mehefin i Aelodau o'r Senedd;
- Cadarnhewch faint o geisiadau a ddaeth i law gan fusnesau nad oeddent wedi cael unrhyw berthynas flaenorol â Llywodraeth Cymru;
- Cadarnhewch nifer y ceisiadau a'r gwariant a dalwyd i fusnesau yn y sector twristiaeth; a
- Chadarnhewch y trothwyon trosiant a fydd yn berthnasol i Gam 2 y Gronfa Cadernid Economaidd.

Yn olaf, pan oedd yr Aelodau yn ystyried y dystiolaeth a gafwyd, daeth nifer o faterion i'r amlwg y dywedais y byddwn yn eu rhannu gyda chi.

Nododd yr Aelodau fod rhai sianelau cyfathrebu rhagorol wedi'u sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn benodol gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ond yn anffodus ddim cystal ag adrannau eraill, yn enwedig Cyllid a Thollau EM.

Byddwn yn croesawu eglurhad ar faint o gysylltiadau y mae'r Grŵp ESNR wedi'u sefydlu, a allai olygu, pe byddem byth yn wynebu argyfwng ar y raddfa hon eto, eich bod wedi paratoi'n well? Byddai'r Pwyllgor yn gobeithio y gallai'r sianelau cyfathrebu hyn rydych chi wedi'u sefydlu fod â phwrpas cyffredinol, ac y dylid eu cynnal ar ôl i'r don uniongyrchol leihau.

Unwaith eto, er eu bod yn gwerthfawrogi'n fawr y gwaith y mae'r Grŵp ESNR wedi'i wneud i gefnogi busnesau yn ystod yr argyfwng, mae'r Aelodau'n parhau i bryderu am yr Argyfwng o ran yr Hinsawdd, ac awgrymwyd bod yr Argyfwng Iechyd Cyhoeddus efallai'n amser i gwmnïau hedfan feddwl sut y gallant leihau eu hallyriadau carbon. Gwnaethom drafod a ellid, ar sail y DU gyfan, ystyried targedau newydd ar gyfer allyriadau pan fyddai nifer yr hediadau yr oeddem wedi dod yn gyfarwydd â hwy yn cael eu hadfer cyn y cyfyngiadau ar symud. Rydym hefyd yn parhau i bryderu am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd ac unrhyw golli swyddi crefftus yn y cyfleuster cynnal a chadw BA cyfagos.

Teimlwyd hefyd y gellid symud ymlaen tuag at weithgynhyrchu ceir â thanwydd hydrogen gan fod gan Gymru y sgiliau yn y diwydiant moduro i gynhyrchu cerbydau o'r fath o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae angen edrych ar weithgynhyrchu a dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol hefyd oherwydd, ledled y DU, ni allwn ddibynnu ar fod y cyfarpar hanfodol hwn yn dod o ffynonellau rhyngwladol. Mae angen strategaeth glir i alluogi'r sefydliadau hynny sydd angen cyfarpar diogelu personol, yn eu swyddi o ddydd i ddydd, i allu ei gael heb broblemau.

Mae'r trafodaethau ar y cytundebau masnach sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE yn parhau, yng nghanol y pandemig. Er bod mwyafrif helaeth o weithlu Llywodraeth Cymru wedi cael eu dargyfeirio i ymdrin â'r pandemig, rhaid inni beidio ag anghofio bod y trafodaethau hanfodol hyn yn dal i gael eu cynnal. Roeddem yn parhau i bryderu'n fawr am effaith y trafodaethau hyn ar fasnach a'r canlyniadau i Gymru o fod yn ddarostyngedig i reolau Sefydliad Masnach y Byd.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod gan eich adran gyfrifoldeb am Brexit yng Nghymru a'ch bod wedi cyfeirio bod yr un tîm yn gyfrifol am Brexit a'r ymateb economaidd i Covid-19. Rydym yn pryderu am y pwysau y mae hyn wedi'i roi ar staff a'r effaith ar allu a gwytnwch yn y tîm hwnnw.

Gan ein bod ym mlwyddyn olaf y weinyddiaeth hon cyn etholiadau'r Senedd, a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2021, oherwydd yr holl bwysau sydd ar ysgwyddau Llywodraeth Cymru wrth reoli'r pandemig, nid yw pob un o Weinidogion Cymru yn mynd i allu darparu'r rhaglenni cyhoeddedig, oherwydd cyfuniad o ddiffyg

adnoddau, hynny yw, adnoddau ariannol, gweithlu ac amser. Yn anffodus bydd yn rhaid addasu neu gario rhai rhaglenni / amcanion polisi i'w hystyried gan y weinyddiaeth nesaf. Ar ran y Pwyllgor, hoffwn atgyfnerthu'r alwad am gydnabyddiaeth ar sail y DU o ran y galwadau gormodol a newydd a roddwyd ar weinyddiaethau'r cenhedloedd datganoledig yn ystod yr amseroedd digynsail hyn.

Yn olaf, yn deillio o'n sesiwn dystiolaeth, mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno barn i'n Pwyllgor cyfatebol yn San Steffan ar Adroddiad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y Trosolwg o ymateb llywodraeth y DU i'r pandemig COVID-19, a gyhoeddwyd ar 21 Mai. Atodaf gopi o ymateb y Pwyllgor, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.